

Peidiwch â dinistrio'r ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn bwysig. Mae'n egluro eich hawliau a'ch cyfrifoldebau. Fe'ch cynghorir i'w darllen cyn cytuno i'r contract. Dylid ei chadw drwy oes y contract. Efallai y bydd angen i chi gyfeirio ati yn y dyfodol. Edrychwch ar y llyfryn canllaw sydd wedi'i ddarparu gyda'r contract hwn. Ceir rhagor o wybodaeth gan eich swyddfa Cyngor ar Bopeth leol, eich canolfan cynghori tai leol neu wefan Rented Homes (www.rentedhomes.gov.uk)

Mae'r contract hwn yn golygu:

- nad oes modd eich troi allan heb orchymyn llys, oni bai eich bod yn gadael y fangre;
- cyn i lys wneud gorchymyn troi allan, bydd rhaid i'ch landlord ddangos y canlynol:
 - bod eich landlord wedi rhoi o leiaf ddau fis o rybudd i chi fod rhaid i chi symud allan,
 - eich bod wedi torri'r contract a'i fod yn rhesymol i'ch troi allan,
 - bod gennych chi ôl-ddyledion rhent difrifol (o leiaf ddau fis o rent heb ei dalu), neu
 - bod angen i'ch landlord eich symud, bod llety addas arall ar gael, a'i fod yn rhesymol i'ch troi allan;
- bod gennych chi hawliau pwysig o ran sut y cewch chi ddefnyddio'r fangre, er y gallai fod angen cydsyniad eich landlord ar gyfer rhai o'r rhain;
- eich bod chi'n gyfrifol am ymddygiad pawb sy'n byw yn y fangre ac yn ymweld â hi;
- bod rhaid i'ch landlord roi datganiad ysgrifenedig o'ch contract meddiannaeth am ddim i chi o fewn dwy wythnos i'r dyddiad y daw i rym; am bob diwrnod y mae'n hwyr, does dim rhaid i chi dalu diwrnod o rent, hyd at uchafswm o ddau fis o rent.

Mae ystyr penodol i lawer o'r geiriau a'r ymadroddion technegol a geir yn y contract hwn dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015. Ceir diffiniad o'r geiriau a'r ymadroddion hyn yn y llyfryn canllaw sy'n cyd-fynd â'r contract hwn.

Mae'r contract hwn yn cynnwys gwahanol fathau o delerau. Gellir hepgor neu newid rhai telerau gan ddibynnu ar ba fath o delerau ydyn nhw. I wneud y contract yn haws ei ddeall, caiff symbolau eu defnyddio ar gyfer y gwahanol fathau o delerau—



teler sylfaenol nad oes modd ei hepgor o'r contract na'i newid.



teler sylfaenol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid, ond dim ond os yw

hynny'n rhoi gwarchodaeth uwch chi na'r hyn y mae gennych chi hawl iddo dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015.



teler atodol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid.

Cynnwys**Tudalen****Tudalen**

A Rhent a thaliadau eraill	1	I Darpariaethau ar gyfer cyd-ddeiliaid	11
B Ymddygiad gwaharddedig	2	contract	
C Rheoli'r fangre	3	J Terfynu'r contract: cyffredinol	12
D Nifer o feddianwyr eraill	4	K Y deiliad contract yn terfynu	14
E Gofalu am y fangre	5	L Y landlord yn terfynu	15
F Gwneud newidiadau i'r fangre neu i wasanaethau	8	M Amrywiad	22
G Sicrwydd a diogelwch	9	N Materion eraill	24
H Trafodion	9		

A. RHENT A THALIADAU ERAILL

Rhent

1. Rhaid i chi dalu'r rhent yn llawn ac ar y dyddiadau y cytunwyd arnynt.



Hawl gwrthgyfrif

2. Os yw'r landlord yn gyfrifol am dalu iawndal i chi dan adran 34 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015, gallwch wrthgyfrif y rhwymedigaeth honno yn erbyn rhent.



Nodyn esboniadol: Nid oes angen i chi dalu diwrnod o rent am bob diwrnod mae'r landlord yn methu â darparu datganiad ysgrifenedig i chi o'ch contract meddiannaeth, neu amrywiad ohono. Mae'r llyfryn canllaw a ddarparwyd gyda'r contract hwn yn esbonio hyn yn fwy manwl.

3. Nid oes angen i chi dalu rhent am unrhyw gyfnod pan fydd y fangre yn anaddas i fyw ynddi. Caiff cyfanswm y rhent nad oes rhaid i chi ei dalu ei gyfrif pro-rata (am bob diwrnod y mae'r fangre yn anaddas i fyw ynddi nid oes angen i chi dalu diwrnod o rent). Nid yw'r teler hwn yn gymwys-
 - (a) os yw'r fangre yn anaddas i fyw ynddi oherwydd rhywbeth rydych chi wedi'i wneud (neu wedi methu â'i wneud) sydd wedi annilysu polisi yswiriant y landlord mewn perthynas â'r fangre, ac
 - (b) os yw'r landlord wedi eich hysbysu chi am ofynion y polisi hwnnw.



Amrywio rhent

4. Caiff y landlord amrywio'r rhent sy'n ddyledus drwy roi hysbysiad i chi yn cynnig rhent newydd fydd yn weithredol ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad.
5. Ni chaiff y cyfnod rhwng y diwrnod y caiff yr hysbysiad ei roi i chi a'r dyddiad penodedig fod yn llai na dau fis.
6. Yn amodol ar hynny —
 - (a) caiff yr hysbysiad cyntaf bennu unrhyw ddyddiad, a
 - (b) rhaid i hysbysiadau dilynol bennu dyddiad nad yw'n llai nag un flwyddyn ar ôl y dyddiad diwethaf y daeth rhent newydd i rym.



Y Dreth Gyngor a gwasanaethau

7. Rhaid i chi dalu'r dreth gyngor.
8. Rhaid i chi dalu am yr holl nwy, trydan, dwr, carthffosiaeth, ffôn a gwasanaethau eraill a gaiff eu cyflenwi i'r eiddo.
9. Rhaid i chi drefnu i gael eich bilio am y trethi a'r gwasanaethau a nodir yn nhelerau 7 ac 8, a rhaid i chi dalu'r symiau'n llawn ac yn brydlon.



Teler sylfaenol nad oes modd ei hepgor o'r contract na'i newid



Teler sylfaenol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid, ond dim ond os yw hynny'n rhoi gwarchodaeth uwch i chi na'r hyn y mae gennych chi hawl iddo dan Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015



Teler atodol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid

BLAENDAL

Math o sicrwydd



10. Ni chaiff y landlord ofyn am gael unrhyw sicrwydd ar wahân i –
(a) arian neu
(b) gwarant.

Gofyniad i ddefnyddio cynllun blaendal



11. Os ydych chi'n talu blaendal (neu os oes person arall yn talu blaendal ar eich rhan), rhaid ymdrin â'r blaendal yn unol â chynllun blaendal awdurdodedig.



12. Cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod y caiff y blaendal ei dalu, rhaid i'r landlord roi gwybodaeth i chi (ac i unrhyw berson sydd wedi talu'r blaendal ar eich rhan) —
(a) yn nodi'r cynllun blaendal awdurdodedig sy'n gymwys,
(b) yn cadarnhau bod y landlord yn cydymffurfio â gofynion cychwynnol y cynllun,
(c) yn esbonio eich hawliau chi (neu'r person hwnnw) mewnperthynas â'r blaendal.



13. "Blaendal" yw arian sy'n cael ei dalu fel sicrwydd.

B. YMDDYGIAD GWAHARDDedig

Ymddygiad gwaharddedig



14. Ni chewch ddefnyddio na bygwth defnyddio trais yn erbyn person sy'n byw'n gyfreithlon yn y fangre.



15. Ni chewch wneud dim byd sy'n achosi perygl o niwed sylweddol i berson sy'n byw'n gyfreithlon yn y fangre.



16. Ni chewch ymddwyn, na bygwth ymddwyn, mewn ffordd a allai achosi niwsans neu annifyrrwch i berson—

- (a) sy'n byw yng nghyffiniau'r fangre, neu
- (b) sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch cyfreithlon yn y fangre neu yng nghyffiniau'r fangre.



17. Ni chewch ddefnyddio, na bygwth defnyddio'r fangre, nac unrhyw rannau cymunol y mae gennych chi hawl i'w defnyddio o dan y contract hwn, at ddibenion troseddol.



18. Ni chewch ganiatáu, cymell, nac annog unrhyw berson sy'n byw yn y fangre neu sy'n ymweld â'r fangre i weithredu yn y ffyrdd y crybwyllir yn nhelerau 14, 15 neu 16.



19. Ni chewch ganiatáu, cymell, nac annog unrhyw berson i weithredu yn y ffordd y crybwyllir yn nheler 17.

C. RHEOLI'R FANGRE

Eich defnydd chi o'r fangre

20. Rhaid i chi ddefnyddio'r fangre fel preswylfa breifat ac ni chewch redeg busnes yn y fangre na chaniatáu i neb arall wneud hynny.



Gwarchod yr hawl i feddiannu

21. Ni chaiff y landlord, drwy unrhyw weithred nag anwaith, ymyrryd â'ch hawl chi i feddiannu'r fangre.



22. Nid yw'r landlord yn ymyrryd â'ch hawl chi drwy ymarfer ei hawl iau'n rhesymol dan y contract hwn.



Nodyn esboniadol: Enghraifft fyddai'r landlord yn defnyddio ei rym i archwilio'r fangre'n rhesymol dan deler 25.

23. Nid yw'r landlord yn ymyrryd â'ch hawl chi am ei fod yn methu â chydymffurfio â'i rwymedigaethau atgyweirio'n unig, sef –
- (a) ei rwymedigaethau i atgyweirio (neu gadw neu gyflenwi atgyweirio) neu gynnal a chadw, adnewyddu, adeiladu neu amnewid unrhyw eiddo,
 - (b) ei rwymedigaethau i gadw unrhyw eiddo'n addas ar gyfer preswyliaid dynol, sut bynnag y caiff ei fynegi
- ac sy'n cynnwys rhwymedigaethau'r landlord dan delerau 41 i 47.



24. Ystyrir bod landlord wedi ymyrryd â'ch hawl chi os yw person—



- (a) sy'n honni dan y landlord, neu
 - (b) sydd â diddordeb yn y fangre, neu ran ohoni, sydd uwchlaw diddordeb y landlord,
- yn ymyrryd â'ch hawl drwy unrhyw weithred neu anwaith cyfreithiol.

Hawl landlord i fynd i mewn i'r fangre: cyffredinol

25. Caiff y landlord fynd i mewn i'r fangre ar unrhyw adeg resymol at ddiben—



- (a) cydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelwch Nwy
- (b) cynnal unrhyw archwiliad arall sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, neu
- (c) ymdrin â phla.

26. Rhaid i'r landlord roi o leiaf 24 awr o rybudd cyn ymarfer y pŵer hwnnw.



Nodyn esboniadol: Lle bo'r contract hwn yn caniatáu i'r landlord wneud rhywbeth, er enghraifft cynnal archwiliadau neu atgyweirio yn y fangre, caiff awdurdodi rhywun i'w wneud ar ei ran.



Teler sylfaenol nad oes modd ei hepgor o'r contract na'i newid



Teler sylfaenol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid, ond dim ond os yw hynny'n rhoi gwarchodaeth uwch i chi na'r hyn y mae gennych chi hawl iddo dan Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015



Teler atodol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid



Hawl landlord i fynd i mewn i'r fangre: argyfwng

27. Os ceir argyfwng a bod angen i'r landlord fynd i mewn i'r fangre ar unwaith, mae ganddo'r hawl i fynd i mewn, neu orfodi mynediad i'r fangre os oes angen heb roi rhybudd i chi.



28. Gallai'r landlord ofyn i chi dalu am unrhyw ddifrod a geir wrth orfodi mynediad i'r fangre os mai chi oedd ar fai bod angen gorfodi mynediad.



Hawl landlord i fynd i mewn i'r fangre: atgyweirio

29. Caiff y landlord fynd i mewn i'r fangre ar unrhyw adeg resymol at ddiben —

- (a) archwilio ei chyflwr neu
- (b) gwneud gwaith neu atgyweiriadau angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â thelerau 41 i 47.



30. Rhaid i'r landlord roi o leiaf 24 awr o rybudd i chi cyn ymarfer y pŵer hwnnw.



31. Caiff y landlord fynd i mewn i'r fangre ar unrhyw adeg resymol at ddiben ymgymryd ag unrhyw waith neu atgyweiriadau angenrheidiol oherwydd eich methiant chi i gydymffurfio â'ch rhwymedigaethau dan deler 35.



32. Rhaid i'r landlord roi o leiaf 24 awr o rybudd i chi cyn ymarfer y pŵer hwnnw.

D. NIFER O FEDDIANNWYR ERAILL

Penderfynu ar y meddianwyr a ganiateir



33. Ar wahân i letywyr (gweler telor 77), is-ddeiliaid (gweler telor 78) a chyd-ddeiliaid contract (gweler telor 81), cewch chi benderfynu faint o bobl eraill a gaiff ganiatâd i fyw yn y fangre, a phwy fyddan nhw, yn amodol ar deler 34.

Dim gorlenwi



34. Ni chewch chi achosi na chaniatáu i'r fangre fod yn orlawn o fewn ystyr Rhan 10 Deddf Tai 1985.

Nodyn esboniadol: Mae'r llyfryn canllaw a ddarparwyd gyda'r contract hwn yn esbonio'r rheolau cyfreithiol sy'n atal gormod o bobl rhag byw yn y fangre.

E. GOFALU AM Y FANGRE

Eich cyfrifoldeb chi

35. Nid ydych chi'n atebol am draul rhesymol yn y fangre neu i'r gosodiadau a'r ffitiadau ond—
- (a) rhaid i chi ofalu am y fangre;
 - (b) rhaid i chi ofalu am unrhyw osodiadau a ffitiadau;
 - (c) rhaid i chi atgyweirio neu amnewid yn brydlon unrhyw osodiadau a ffitiadau sydd wedi'u difrodi neu eu dinistrio o ganlyniad i ddiffyg gofal gennych chi neu gan feddiannwr a ganiateir yn y fangre;
 - (d) ni chewch dynnu unrhyw osodiadau neu ffitiadau o'r eiddo heb gydsyniad y landlord;
 - (e) chi fydd yn gyfrifol am unrhyw fethiant i ofalu am y fangre neu'r gosodiadau a ffitiadau ar ran unrhyw letywr, is-ddeiliad, person a ganiatawyd gennych chi i fyw yn y fangre (gweler teler 33) neu unrhyw berson arall rydych chi wedi caniatáu mynediad i'r fangre iddo.



Rhestr o eiddo

36. Os nad oes un wedi'i chreu at ddibenion cynllun blaendal awdurdodedig, rhaid i'r landlord baratoi rhestr o eiddo yn y fangre. Mae gennych chi hawl i gael un copi o'r rhestr am ddim. Gall y landlord godi tâl arnoch chi am unrhyw gopïau eraill.



Hysbysu'r landlord am unrhyw nam sydd angen ei atgyweirio

37. Rhaid i chi sicrhau bod y landlord yn ymwybodol o unrhyw nam neu ddiffyg sy'n gyfrifoldeb iddo ei atgyweirio dan delerau 41 i 47.



Hawl y landlord i wneud gwaith atgyweirio

38. Caiff y landlord wneud unrhyw waith neu atgyweirio sydd eu hangen yn sgil eich methiant chi i gydymffurfio â'ch rhwymedigaethau dan deler 35. Gall godi tâl arnoch chi am unrhyw gostau rhesymol yr eir iddynt drwy wneud y cyfryw waith neu atgyweirio.



Trosglwyddo hysbysiadau perthnasol am y fangre i'r landlord

39. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol rhaid i chi roi copïau gwreiddiol unrhyw hysbysiadau, gorchmynion neu ddogfennau tebyg yn ymwneud â'r fangre neu unrhyw dir gerllaw a anfonir i'r fangre.



Nodyn esboniadol: Er enghraifft, os ydych chi'n derbyn unrhyw hysbysiadau dan Ddeddf Waliau Cyfrannol 1996, rhaid i chi eu rhoi i'r landlord.

Gerddi

40. Os oes gardd gennych chi, rhaid i chi ei chadw'n daclus ac yn gymen, ac ni chewch dynnu unrhyw goed na phlanhigion oddi yno.



Teler sylfaenol nad oes modd ei hepgor o'r contract na'i newid



Teler sylfaenol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid, ond dim ond os yw hynny'n rhoi gwarchodaeth uwch i chi na'r hyn y mae gennych chi hawl iddo dan Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015



Teler atodol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid

Rhwymedigaeth y landlord i atgyweirio



41. Rhaid i'r landlord sicrhau —

- (a) nad oes perygl posibl categori 1 yn y fangre, ac
- (b) os yw'r fangre yn rhan yn unig o adeilad, nad oes perygl posibl categori 1 ar strwythur neu du allan yr adeilad neu'r rhannau cyffredin.



42. Rhaid i'r landlord —

- (a) sicrhau bod strwythur a thu allan y fangre (gan gynnwys draeniau, cwteri a phibellau allanol) yn cael eu cadw mewn cyflwr da
- (b) sicrhau bod y gosodiadau gwasanaeth yn y fangre yn cael eu cadw mewn cyflwr da ac yn gweithio.



43. Os yw'r fangre yn rhan yn unig o adeilad, rhaid i'r landlord —

- (a) sicrhau bod strwythur a thu allan unrhyw rannau eraill o'r adeilad (gan gynnwys draeniau, cwteri a phibellau allanol) y mae ganddo ddiddordeb ynddynt yn cael eu cadw mewn cyflwr da
- (b) sicrhau bod gosodiadau gwasanaeth sy'n gwasanaethu'r fangre yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn cael eu cadw mewn cyflwr da ac yn gweithio os yw naill ai —
 - (i) yn rhan o unrhyw ran o'r adeilad y mae ganddo ystâd neu ddiddordeb ynddo neu
 - (ii) yn eiddo iddo neu dan ei reolaeth.



44. Mae safon yr atgyweirio sy'n ofynnol dan delerau 42 a 43 yn cyfateb i'r hyn sy'n rhesymol o ystyried oed a chymeriad y fangre, a'r cyfnod y bydd y fangre yn debygol o fod ar gael i'w meddiannu fel cartref.



45. Rhaid i'r landlord unioni unrhyw ddifrod a achosir gan waith ac atgyweirio a wneir er mwyn cydymffurfio â'i rwymedigaethau dan delerau 41 i 43.



46. Ni chaiff y landlord osod unrhyw rwymedigaeth arnoch chi os byddwch chi'n gorfodi neu'n dibynnu ar rwymedigaethau'r landlord dan delerau 41 i 45.



47. Yn y contract hwn—

Mae gan "perygl posibl categori 1" yr un ystyr ag yn Neddf Tai 2004 (c 4) (gweler adran 2), a

"gosodiad gwasanaeth" yw gosodiad ar gyfer cyflenwi dŵr, nwy neu drydan, ar gyfer glanweithdra, gwresogi gofod neu wresogi dŵr.

Nodyn esboniadol: Mae'r llyfryn canllaw a ddarparwyd gyda'r contract hwn yn esbonio mwy am berygl posibl categori 1.

Cyfngiadau ar rwymedigaethau'r landlord i atgyweirio: cyffredinol

48. Nid yw teler 41 yn gosod unrhyw gyfrifoldeb ar y landlord mewn perthynas â pherygl posibl categori 1 nad oes modd i'r landlord ei symud ar gost resymol.
49. Nid yw telerau 41 a 42 yn ei gwneud yn ofynnol i'r landlord—
 - (a) ailadeiladu neu adfer y fangre neu unrhyw ran ohoni, os caiff ei dinistrio neu ddifrodi gan achos perthnasol,
 - (b) cadw unrhyw beth y mae gennych chi hawl i'w symud o'r fangre mewn cyflwr da.
50. Os mai rhan o adeilad yn unig yw'r fangre, nid yw'n ofynnol dan delerau 41 a 43 i'r landlord ailadeiladu neu adfer unrhyw ran arall o'r adeilad y mae ganddo ystad neu ddiddordeb ynddo, os caiff ei dinistrio neu ddifrodi gan achos perthnasol.
51. Achosion perthnasol yw tân, storm a llifogydd neu ddamwain anochel arall.
52. Nid yw teler 43 yn ei gwneud yn ofynnol i'r landlord wneud gwaith neu atgyweirio oni bai bod y dadfeilio neu'r methiant i'w gadw mewn cyflwr da yn effeithio eich mwynhad chi—
 - (a) o'r fangre neu
 - (b) o'r rhannau cymunedol y mae hawl gennych chi eu defnyddio dan y contract hwn.
53. Mae teler 54 yn gymwys—
 - (a) pan fydd y fangre yn rhan o adeilad yn unig; ac
 - (b) er mwyn cydymffurfio â thelerau 41 i 47 mae angen i'r landlord wneud gwaith neu atgyweirio mewn rhan arall o'r adeilad.
54. Nid yw'r landlord yn gyfrifol am fethu â chydymffurfio â thelerau 41 i 47 os nad oes ganddo hawliau digonol dros y rhan arall honno o'r adeilad i'w alluogi i wneud y gwaith neu'r atgyweirio, ac na fu modd iddo sicrhau'r cyfryw hawliau ar ôl gwneud ymdrech resymol i wneud hynny.



Cyfngiadau ar rwymedigaethau'r landlord i atgyweirio: eich bai chi

55. Nid yw teler 41 yn gosod unrhyw gyfrifoldeb ar y landlord os yw bodolaeth perygl posibl categori 1 i'w briodoli'n llwyr neu'n bennaf i ddiffyg gofal ar eich rhan chi neu feddiannwr a ganiateir yn y fangre.
56. Nid yw telerau 42 na 43 yn rhwymo'r landlord i wneud gwaith neu atgyweirio os oes modd priodoli dadfeiliad neu fethiant gosodiad gwasanaeth yn llwyr neu'n bennaf i ddiffyg gofal ar eich rhan chi neu feddiannwr a ganiateir yn y fangre.
57. "Diffyg gofal" yw methu â chymryd gofal priodol—
 - (a) o'r fangre, neu
 - (b) os yw'r fangre yn rhan o adeilad yn unig, y rhannau cymunedol y mae hawl gennych chi eu defnyddio dan y contract hwn.



Teler sylfaenol nad oes modd ei hepgor o'r contract na'i newid



Teler sylfaenol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid, ond dim ond os yw hynny'n rhoi gwarchodaeth uwch i chi na'r hyn y mae gennych chi hawl iddo dan Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015



Teler atodol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid

Cyfngiadau ar rwymedigaethau'r landlord i atgyweirio: hysbysu



58. Nid yw rhwymedigaethau'r landlord dan delerau 42 a 43 yn codi hyd nes y bydd y landlord yn ymwybodol fod angen gwaith neu atgyweirio.



59. Mae'r landlord yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau dan y telerau hynny os yw'n gwneud y gwaith neu'r atgyweirio o fewn amser rhesymol yn dilyn y diwrnod y daeth yn ymwybyddol eu bod yn angenrheidiol.



60. Bydd teler 61 yn gymwys os—
(a) yw'r landlord (yr "hen landlord") yn trosglwyddo ei ddiddordeb yn y fangre i berson arall (y "landlord newydd"), a
(b) bod yr hen landlord yn ymwybodol cyn y dyddiad trosglwyddo bod gwaith neu atgyweirio'n angenrheidiol i gydymffurfio â thelerau 42 neu 43.



61. Ystyrir fod y landlord newydd yn ymwybodol bod angen y gwaith neu'r atgyweirio ar y dyddiad trosglwyddo, ond nid cyn hynny.

Hawliau meddiannwyr a ganiateir



62. Caiff meddiannwr a ganiateir sy'n dioddef anaf personol, neu golled neu ddifrod i eiddo personol, o ganlyniad i fethiant y landlord i gydymffurfio â theler 42 neu 42 orfodi'r teler hwnnw ei hun.



63. Ond caiff meddiannwr a ganiateir sy'n lletywr neu'n is-ddeiliad ond gwneud hynny os yw'r lletywr yn cael byw yn y fangre, neu os caiff y contract is-feddiannu ei greu, yn unol â thelerau'r contract.

Nodyn esboniadol: Gweler teler 77 ar gyfer lletywyr a theler 78 ar gyfer contractau is-feddiannu a wneir gydag is-ddeiliaid.

F. GWNEUD NEWIDIADAU I'R EIDDO NEU I WASANAETHAU

Eich gwelliannau chi



64. Ni chewch wneud gwelliant i'r fangre na'i newid heb ganiatâd ysgrifenedig y landlord. Mae gan y landlord hawl absoliwt i wrthod cydsyniad ar gyfer unrhyw newidiadau neu welliannau. Gall y landlord gydsynio yn ddarostyngedig i amodau.



65. Yn nheler 64 mae "gwelliant" yn golygu unrhyw ychwanegiad i'r fangre, neu newid iddi, ac mae'n cynnwys—
(a) unrhyw ychwanegiad neu newid i osodiadau a ffitiadau'r landlord,
(b) unrhyw ychwanegiad neu newid yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau i'r fangre,
(c) codi erial neu ddysgl lloeren radio neu deledu,
(d) addurno'r tu allan i'r fangre.

Newidiadau i wasanaethau

66. Ni chewch wneud yr un o'r canlynol heb gydsyniad y landlord—
- (a) canslo'r cyflenwad dŵr, trydan neu nwy (os yw'n gymwys) (gweler telor 8); neu
 - (b) gosod neu dynnu (neu drefnu i osod neu dynnu) unrhyw fesuryddion yn y fangre sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau i'r fangre (gweler telor 8).



G. SICRWYDD A DIOGELWCH

Diogelwch ac allweddi

67. Rhaid i chi gymryd gofal rhesymol i warchod diogelwch y fangre.
68. Rhaid i chi beidio â gwneud y canlynol heb gydsyniad y landlord—
- (a) newid, ychwanegu neu dynnu unrhyw glo yn y fangre,
 - (b) torri unrhyw allweddi neu set o allweddi ychwanegol.
69. Caiff y landlord godi tâl arnoch chi am gost newid, ychwanegu neu dynnu unrhyw glo neu dorri unrhyw allweddi newydd os yw hyn yn angenrheidiol oherwydd eich bai chi.
70. Os yw'r fangre yn mynd i fod yn wag am 30 o ddyddiau'n olynol rhaid i chi hysbysu'r landlord am hyn o flaen llaw. Os yw'r fangre yn mynd i gael ei gadael heb ei meddiannu rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw ofynion mewn perthynas â'r fangre wag ym mholisi yswiriant sydd gan y landlord, ond dim ond os yw'r landlord wedi eich hysbysu chi am y gofynion hynny.
71. Os ceir larwm lladron, ni chewch newid codau'r larwm heb gydsyniad y landlord. Rhaid i chi wirio'n rheolaidd fod y larwm lladron yn gweithio a newid y batris (os yw'n briodol) pan fo angen.



Larymau tân, larymau mwg a datgelyddion carbon monocsid

72. Os ceir larymau tân, larymau mwg neu ddatgelyddion carbon monocsid yn y fangre, rhaid i chi wirio'n rheolaidd eu bod yn gweithio a rhaid i chi newid y batris (os yw'n briodol) pan fo angen.



H. TRAFODION

Delio: Gwaharddiad cyffredinol

73. Yn nhelerau 74 i 76 mae "delio" yn cynnwys—
- (a) creu tenantiaeth, neu greu trwydded sy'n cyflwyno hawl i feddiannu'r fangre,
 - (b) troslwyddo,
 - (c) morgeisio neu godi tâl mewn ffordd arall.



Telur sylfaenol nad oes modd ei hepgor o'r contract na'i newid



Telur sylfaenol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid, ond dim ond os yw hynny'n rhoi gwarchodaeth uwch i chi na'r hyn y mae gennych chi hawl iddo dan Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015



Telur atodol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid



74. Ni chewch ddelio gyda'r contract hwn, y fangre nac unrhyw ran o'r fangre ar wahân i—
 (a) mewn modd a ganiateir gan y contract hwn neu
 (b) yn unol â gorchymyn eiddo teulu.



75. Ni chaiff cyd-ddeiliad contract ddelio ag unrhyw beth a grybwyllir yn nheler 74 na'i hawliau a'i rwymedigaethau dan y contract hwn ar wahân i—
 (a) mewn modd a ganiateir gan y contract hwn neu
 (b) yn unol â gorchymyn eiddo teulu.



76. Os ydych chi'n gwneud unrhyw beth sy'n torri telor 74, neu os yw cyd-ddeiliad contract yn gwneud unrhyw beth sy'n torri telor 75—
 (a) nid yw'r trafodyn yn rhwymo'r landlord,
 (b) rydych chi neu mae'r cyd-ddeiliad contract yn torri'r contract hwn (er gwaethaf y ffaith nad yw'r trafodyn yn rhwymo'r landlord).

Nodyn esboniadol: Mae'r llyfryn canllaw a ddarparwyd gyda'r contract hwn yn cynnwys rhagor o wybodaeth ar ffyrdd o ddelio â hyn, yn benodol y gofynion gweithdrefnol a chydsyniad.

Lletywyr



77. Cewch ganiatáu i bersonau fyw yn y fangre fel lletywyr os yw'r landlord yn cydsynio.

Llunio contractau is-feddiannaeth



78. Cewch wneud contract is-feddiannaeth sy'n gcontract safonol cyfnodol os yw'r landlord yn cydsynio. Mae gan y landlord hawl absoliwt i wrthod cydsyniad ar gyfer unrhyw gais gennych chi i lunio is-gcontract. Gall y landlord gydsynio yn ddarostyngedig i amodau.

Nodyn esboniadol: Is-ddeiliad yw'r deiliad contract dan gcontract is-feddiannaeth. Mae'r llyfryn canllaw a ddarparwyd gyda'r contract hwn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am lunio contractau is-feddiannaeth.

Trosglwyddo



79. Cewch drosglwyddo'r contract hwn os yw'r landlord yn cydsynio. Mae gan y landlord hawl absoliwt i wrthod cydsyniad i unrhyw gais gennych chi i drosglwyddo'r contract hwn.



80. Os oes person wedi gwarantu eich rhwymedigaethau dan y contract hwn, caiff y person hwnnw ei ryddhau o'r warant honno mewn perthynas ag unrhyw achosion o dorri rhwymedigaethau dan y contract hwn sy'n digwydd ar ôl trosglwyddo'r contract, pan fyddwch chi'n trosglwyddo'r contract yn unol â theler 79.

I. DARPARIAETHAU AR GYFER CYD-DDEILIAID CONTRACT

Ychwanegu deiliad contract

81. Gyda chydsyniad y landlord, cewch wneud person arall yn gyd-ddeiliad contract dan y contract hwn.
82. Os caiff person ei wneud yn gyd-ddeiliad contract dan deler 81 bydd ganddo'r holl hawliau a'r rhwymedigaethau sydd gan ddeiliad contract dan y contract hwn o'r diwrnod y daw'n gyd-ddeiliad contract

Nodyn esboniadol: Mae'r llyfryn canllaw a ddarparwyd gyda'r contract hwn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am gamau ffurfiol ychwanegu cyd-ddeiliad contract.

Tynnu'n ôl

83. Caiff cyd-ddeiliad contract dynnu'n ôl o'r contract hwn drwy roi hysbysiad ("hysbysiad tynnu'n ôl") i'r landlord.
84. Rhaid i'r hysbysiad tynnu'n ôl bennu'r dyddiad y mae'r cyd-ddeiliad contract yn bwriadu peidio â bod yn barti i'r contract hwn (y "dyddiad tynnu'n ôl").
85. Wrth gyflwyno hysbysiad tynnu'n ôl dan deler 83 rhaid i'r cyd-ddeiliad contract roi o leiaf fis o rybudd i'r landlord.
86. Rhaid i'r cyd-ddeiliad contract roi rhybudd ysgrifenedig i'r cyd-ddeiliaid contract eraill pan fydd yn cyflwyno'r hysbysiad tynnu'n ôl i'r landlord; a rhaid atodi copi o'r hysbysiad tynnu'n ôl i'r rhybudd.
87. Rhaid i'r landlord roi rhybudd ysgrifenedig i'r cyd-ddeiliaid contract eraill cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn yr hysbysiad tynnu'n ôl; a rhaid atodi copi o'r hysbysiad tynnu'n ôl i'r rhybudd.
88. Mae'r cyd-ddeiliad contract yn peidio â bod yn barti i'r contract hwn ar y dyddiad tynnu'n ôl.
89. Rhaid trin hysbysiad a gyflwynir i'r landlord gan un neu ragor (ond nid pob un) o'r cyd-ddeiliad contract sy'n honni bod yn hysbysiad dan deler 114 (hysbysiad deiliad contract i derfynu'r contract) fel hysbysiad tynnu'n ôl, a rhaid trin y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad fel y dyddiad tynnu'n ôl.
90. Nid yw teler 86 yn gymwys i hysbysiad a gaiff ei drin fel hysbysiad tynnu'n ôl oherwydd teler 89.



Teler sylfaenol nad oes modd ei hepgor o'r contract na'i newid



Teler sylfaenol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid, ond dim ond os yw hynny'n rhoi gwarchodaeth uwch i chi na'r hyn y mae gennych chi hawl iddo dan Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015



Teler atodol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid

Goroesedd



91. Os yw cyd-ddeiliad contract yn marw, neu'n peidio â bod yn barti i'r contract hwn am ryw reswm arall, o'r amser y mae'n peidio â bod yn barti mae'r cyd-ddeiliaid sydd ar ôl—
- (a) yn meddu'n llawn ar yr holl hawliau dan y contract hwn, ac
 - (b) yn gyfrifol am berfformio'n llawn pob rhwymedigaeth sy'n ddyledus i'r landlord dan y contract hwn.



92. Nid yw'r cyd-ddeiliad contract yn meddu ar unrhyw hal ac nid yw'n gyfrifol am unrhyw rwymedigaeth mewn perthynas â'r cyfnod ar ôl iddo orffen bod yn barti i'r contract hwn.



93. Nid oes dim byd yn nhelerau 91 a 92 yn tynnu unrhyw hawl nac yn hepgor unrhyw rwymedigaeth ar y cyd-ddeiliad contract sy'n cronni cyn iddo beidio â bod yn barti i'r contract hwn.



94. Nid yw telerau 91 i 93 yn gymwys os yw cyd-ddeiliad contract yn peidio â bod yn barti i'r contract hwn oherwydd bod ei hawliau a'i rwymedigaethau dan y contract hwn yn cael eu trosglwyddo yn unol â'r contract hwn.

J. TERFYNU'R CONTRACT: CYFFREDINOL

Terfynu



95. Dim ond yn unol â'r canlynol y gellir diweddu'r contract hwn—
- (a) telerau 98 i 105 a 111 i 165, neu
 - (b) deddfiad (gan gynnwys yn benodol Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015 a'r rheoliadau diogelu defnyddwyr).



96. Nid oes dim byd yn nheler 95 yn effeithio ar—
- (a) unrhyw hawl sydd gan y landlord neu chi i ddiddymu'r contract hwn
 - (b) gweithrediad cyfraith llesteirio.

Cyd-ddeiliaid contract



97. Os ceir cyd-ddeiliaid contract, nid oes modd diweddu'r contract hwn os yw un neu ragor o'r cyd-ddeiliaid contract yn gweithredu ar wahân i'r cyd-ddeiliad neu'r cyd-ddeiliaid contract eraill.

Cytundeb



98. Os yw'r landlord a chi yn cytuno i ddiweddu'r contract, bydd y contract hwn yn dod i ben—
- (a) pan fyddwch chi'n ildio meddiant o'r fangre yn unol â'r cytundeb, neu
 - (b) os nad ydych chi'n ildio meddiant a bod contract meddiannaeth amnewid yn cael ei greu, yn union cyn y dyddiad y daw'r contract meddiannaeth amnewid i rym.

99. Mae contract meddiannaeth yn contract meddiannaeth amnewid—
- (a) os yw'n cael ei wneud mewn perthynas â'r un fangre (neu'n sylweddol yr un fangre) â'r contract hwn, ac
 - (b) os oedd y deiliad contract dan y contract hefyd yn ddeiliad contract dan y contract hwn.



Ymwrthod

100. Os yw'r landlord yn cyflawni toriad y gellir ei wrthod i'r contract a'ch bod chi'n ildio meddiant o'r fangre oherwydd y toriad hwnnw, mae'r contract hwn yn dod i ben pan fyddwch chi'n ildio meddiant o'r fangre.
- Nodyn esboniadol: Os yw'r landlord yn cyflawni toriad difrifol i'r contract hwn fe allai fod gennych chi hawl i ddiweddu'r contract drwy ildio meddiant o'r fangre yn unig. Ceir rhagor o wybodaeth am ymwrthod yn y llyfryn canllaw.*



Eich marwolaeth chi

101. Os mai chi yw'r unig ddeiliad contract ac rydych chi'n marw, bydd y contract hwn yn dod i ben—
- (a) un mis ar ôl eich marwolaeth neu
 - (b) os yw'n gynharach, pan gaiff y landlord ei hysbysu am eich marwolaeth gan y personau awdurdodedig.
102. Y personau awdurdodedig yw—
- (a) eich cynrychiolwyr personol chi, neu
 - (b) deiliaid y fangre a ganiateir sydd yn 16 oed ac yn hŷn (os o gwbl) yn gweithredu gyda'i gilydd.
103. Nid yw'r contract hwn yn dod i ben os oes un person neu fwy yn gymwys i'ch olynu dan adran 142 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015.
104. Nid yw'r contract hwn yn dod i ben os, ar adeg eich marwolaeth chi, ceir gorchymyn eiddo teuluol sy'n golygu ei bod yn ofynnol i chi drosglwyddo'r contract hwn i berson arall.
105. Os, ar ôl eich marwolaeth chi, bydd y gorchymyn eiddo teuluol yn peidio â bod mewn grym ac nad oes person cymwys i'ch olynu chi, bydd y contract hwn yn dod i ben—
- (a) pan fydd y gorchymyn yn peidio â bod mewn grym, neu
 - (b) os yw'n ddiweddarach, ar yr adeg y byddai'r contract yn dod i ben dan deler 101.



Pan fydd y contract hwn yn dod i ben

106. Pan fydd y contract hwn yn dod i ben rhaid i chi adael y canlynol ar ôl yn unig—
- (a) eiddo sy'n perthyn i'r landlord, ac
 - (b) eiddo sy'n perthyn i rywun sy'n aros yn y fangre.
107. Os cafodd unrhyw ddodrefn sy'n perthyn i'r landlord eu symud yn ystod oes y contract hwn rhaid eu dychwelyd i'r safle roeddent ynddo ar ddechrau'r contract hwn.
108. Rhaid i chi ddychwelyd holl allweddi'r fangre (gan gynnwys unrhyw allweddi ychwanegol sydd wedi'u torri) i'r landlord.



Teler sylfaenol nad oes modd ei hepgor o'r contract na'i newid



Teler sylfaenol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid, ond dim ond os yw hynny'n rhoi gwarchodaeth uwch i chi na'r hyn y mae gennych chi hawl iddo dan Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015



Teler atodol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid



109. Pan fydd y contract hwn yn dod i ben, ni chewch adael neb arall yn byw yn y fangre pan fyddwch chi'n gadael (oni bai bod ganddynt hawl eu hunain i fod yno).

Ad-dalu rhent a chostau sydd wedi'u rhagdal



110. Pan fydd y contract hwn yn dod i ben rhaid i'r landlord ad-dalu cyfran briodol o unrhyw rent sydd wedi'i rhagdal ynghyd ag ystyriaethau eraill, i'w cyfrifo ar sail pro-rata.

Nodyn esboniadol: Mae'r llyfryn canllaw a ddarparwyd gyda'r contract hwn yn esbonio sut y byddai'r gyfran briodol yn cael ei chyfrifo.

K. Y DEILIAD CONTRACT YN TERFYNU

Terfynu cynnar



111. Gallwch ddiweddu'r contract hwn ar unrhyw adeg cyn—
(a) y dyddiad y daw i rym
(b) os yw'n gynt, y diwrnod y mae'r landlord yn rhoi datganiad ysgrifenedig i chi o'r contract hwn dan deler 191.



112. I ddiweddu'r contract dan deler 111, rhaid i chi roi hysbysiad i'r landlord yn datgan eich bod yn dymuno diweddu'r contract



113. Pan fyddwch yn rhoi hysbysiad i'r landlord—
(a) rydych chi'n peidio â bod ag unrhyw atebolrwydd dan y contract hwn ac
(b) mae gennych chi hawl i gael unrhyw flaendal, rhent neu ystyriaeth arall a roddwyd i'r landlord yn ôl yn unol â'r contract hwn

Hysbysiad y deiliad contract



114. Gallwch ddiweddu'r contract drwy roi hysbysiad i'r landlord y byddwch yn ildio meddiant o'r fangre ar ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad.



115. Wrth roi hysbysiad dan deler 114 rhaid i chi roi o leiaf mis o rybudd i'r landlord.



116. Os ydych chi'n ildio meddiant o'r fangre ar neu cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad dan deler 114, bydd y contract hwn yn dod i ben ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad.



117. Os ydych chi'n ildio meddiant o'r fangre ar ôl y dyddiad hwnnw ond yn gysylltiedig â'r hysbysiad, daw'r contract hwn i ben—
(a) ar y diwrnod rydych chi'n ildio meddiant o'r fangre, neu
(b) os caiff gorchymyn ildio meddiant ei wneud, ar y dyddiad a bennir yn unol â theler 126.



118. Nid yw'r hysbysiad yn parhau mewn grym os, cyn i'r contract hwn ddod i ben—
(a) rydych chi'n tynnu'r hysbysiad yn ôl gyda hysbysiad arall i'r landlord ac
(b) nad yw'r landlord yn gwrthwynebu tynnu'n ôl yn y modd hwn yn ysgrifenedig cyn pen cyfnod rhesymol.

L. Y LANDLORD YN TERFYNU

Hysbysiad y landlord

119. Caiff y landlord derfynu'r contract hwn drwy roi hysbysiad i chi fod rhaid i chi ildio meddiant o'r fangre ar ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad. 
120. Ni chaiff y dyddiad a bennir mewn hysbysiad dan deler 119 fod yn llai na dau fis ar ôl y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei roi i chi. 
121. Os ydych chi'n ildio meddiant o'r fangre ar neu cyn y dyddiad a bennir mewn hysbysiad dan deler 119, bydd y contract hwn yn dod i ben ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad. 
122. Os ydych chi'n ildio meddiant o'r fangre ar ôl y dyddiad hwnnw ond mewn perthynas â'r hysbysiad, bydd y contract hwn yn dod i ben—
 (a) ar y diwrnod rydych chi'n ildio meddiant o'r fangre, neu
 (b) os caiff gorchymyn ildio meddiant ei wneud, ar y dyddiad a bennir yn unol â theler 126. 
123. Nid yw'r hysbysiad yn parhau mewn grym os, cyn i'r contract hwn ddod i ben —
 (a) yw'r landlord tynnu'r hysbysiad yn ôl gyda hysbysiad arall i chi ac
 (b) nad ydych chi'n gwrthwynebu tynnu'n ôl yn y modd hwn yn ysgrifenedig cyn pen cyfnod rhesymol. 

Achos cymryd meddiant

124. Dim ond yn yr amgylchiadau a nodir yn nhelerau 129 i 165 y caiff y landlord wneud hawliad i'r llys i adennill meddiant o'r fangre gennych chi ("hawlio meddiant"). 
125. Lle bo'n ofynnol yn ôl y telerau hyn i'r landlord roi hysbysiad cymryd meddiant i chi cyn hawlio meddiant ar unrhyw sail, rhaid i'r hysbysiad (yn ogystal â phennu'r sail)—
 (a) ddatgan bwriad y landlord i hawlio meddiant,
 (b) rhoi manylion am y sail a
 (c) nodi'r dyddiad y caiff y landlord hawlio meddiant ar ei ôl. 

Effaith gorchymyn ildio meddiant

126. Os yw llys yn gwneud gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant o'r fangre ar ddyddiad a bennir yn y gorchymyn, bydd y contract hwn yn dod i ben—
 (a) os ydych chi'n ildio meddiant o'r fangre ar neu cyn y dyddiad hwnnw: ar y dyddiad hwnnw
 (b) os ydych chi'n ildio meddiant o'r fangre ar ôl y dyddiad hwnnw ond cyn gweithredu'r gorchymyn ildio meddiant: ar y dyddiad rydych chi'n ildio meddiant o'r fangre, neu
 (c) os nad ydych chi'n ildio meddiant o'r fangre cyn gweithredu'r gorchymyn ildio meddiant: ar adeg gweithredu'r gorchymyn ildio meddiant. 



Teler sylfaenol nad oes modd ei hepgor o'r contract na'i newid



Teler sylfaenol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid, ond dim ond os yw hynny'n rhoi gwarchodaeth uwch i chi na'r hyn y mae gennych chi hawl iddo dan Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015



Teler atodol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid



127. Mae telor 128 yn gymwys—

- (a) os yw'n amod o'r gorchymyn bod rhaid i'r landlord gynnig contract meddiant newydd i'r un fangre i un neu ragor o'r cyd-ddeiliad (ond nid pob un) ac
- (b) os yw'r cyd-ddeiliad contract (neu gyd-ddeiliad contract) yn parhau i feddiannu'r fangre ar ac ar ôl y dyddiad y daw'r contract newydd i rym.



128. Mae'r contract hwn yn dod i ben yn union cyn y dyddiad y daw'r contract newydd i rym.

Sail hysbysiad y landlord



129. Os yw'r landlord yn rhoi hysbysiad i chi dan deler 119, ar y sail honno caiff y landlord gyflwyno hawliad i'r llys i adennill meddiant o'r fangre.



130. Mae adran 195 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015 yn darparu os yw'r llys yn fodlon fod y sail yn ddilys, bod rhaid i'r llys wneud gorchymyn i gael meddiant o'r fangre.

Cyfyngiadau ar ddefnydd o sail hysbysiad y landlord: cyffredinol



131. Ni chaiff y landlord hawlio meddiant ar y sail yn nheler 129—

- (a) cyn diwedd y cyfnod o ddau fis yn dechrau ar y diwrnod y mae'n rhoi hysbysiad i chi dan deler 119, neu
- (b) ar ôl diwedd y cyfnod o bedwar mis gan ddechrau â'r diwrnod hwnnw.

Cyfyngiadau ar ddefnydd o sail hysbysiad y landlord: torri gofynion gwybodaeth



132. Os nad yw'r landlord yn cydymffurfio â theler 191 (dyletswydd i ddarparu datganiad ysgrifenedig o gontract), ni chaiff hawlio meddiant ar y sail yn nheler 129 cyn diwedd y cyfnod cyfyngedig.



133. Y cyfnod cyfyngedig yw chwe mis gan ddechrau gyda'r diwrnod y mae'r landlord yn rhoi datganiad ysgrifenedig o'r contract hwn i chi.



134. Ni chaiff landlord hawlio meddiant ar y sail yn nheler 129 ar unrhyw adeg pan nad yw wedi darparu'r hysbysiad y mae'n ofynnol iddo ei ddarparu dan delerau 181 i 185 (dyletswydd i ddarparu gwybodaeth am bartïon.)

Cyfyngiadau ar ddefnydd o sail hysbysiad y landlord: torri gofynion blaendal.



135. Ni chaiff y landlord hawlio meddiant ar y sail yn nheler 129 ar adeg pan fydd unrhyw rai o delerau 136 i 139 yn gymwys.



136. Nid yw'r warant oedd yn ofynnol gan y landlord mewn ffurf nad yw telor 10 yn ei ganiatáu wedi'i dychwelyd i'r person a'i rhoddodd.

137. Talwyd blaendal mewn perthynas â'r contract hwn ond nid yw'r landlord wedi darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol dan deler 12.



138. Talwyd blaendal mewn perthynas â'r contract hwn ond ni chydymffurfiwyd â gofynion cychwynnol cynllun blaendal awdurdodedig.



139. Nid yw blaendal a dalwyd mewn perthynas â'r contract hwn yn cael ei ddal yn unol â chynllun blaendal awdurdodedig.



Torri'r contract

140. Os ydych chi'n torri'r contract hwn, ar y sail honno caiff y landlord gyflwyno hawliad i'r llys i adennill meddiant o'r fangre.



141. Mae Adran 199 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015 yn darparu na chaiff y llys wneud gorchymyn i ildio meddiant ar y sail honno oni bai ei fod yn ei ystyried yn rhesymol i wneud hynny.



142. Cyn hawlio meddiant ar y sail yn nheler 140, rhaid i'r landlord roi hysbysiad cymryd meddiant i chi yn pennu'r sail honno.



143. Caiff y landlord hawlio meddiant yn sgil torri unrhyw rai o delerau 14 i 19 (ymddygiad gwaharddedig) ar neu ar ôl y diwrnod y mae'n rhoi hysbysiad cymryd meddiant i chi sy'n pennu bod un o'r telerau hynny wedi'i dorri.



144. Ni chaiff y landlord hawlio meddiant yn sgil torri unrhyw deler arall yn y contract hwn cyn diwedd y cyfnod o un mis gan ddechrau ar y diwrnod y mae'n rhoi hysbysiad cymryd meddiant i chi sy'n pennu bod y teler hwnnw wedi'i dorri.



145. Yn y naill achos neu'r llall ni chaiff y landlord hawlio meddiant ar ôl y cyfnod o chwe mis gan ddechrau ar y diwrnod y mae'n rhoi'r hysbysiad cymryd meddiant i chi.



Ôl-ddyled rhent ddifrifol

146. Os oes gennych chi ôl-ddyled ddifrifol gyda'ch rhent, ar y sail honno gall y landlord gyflwyno hawliad i'r llys i adennill meddiant o'r fangre.



147. Mae gennych chi ôl-ddyled ddifrifol gyda'ch rhent—
- (a) os yw'r cyfnod rhentu yn wythnos neu bythefnos, a bod o leiaf wyth wythnos o rent heb ei dalu,
 - (b) os yw'r cyfnod rhentu yn fis, a bod o leiaf ddau fis o rent heb ei dalu
 - (c) os yw'r cyfnod rhentu yn chwarter, a bod o leiaf un chwarter o rent yn ddyledus ers dros dri mis
 - (d) os yw'r cyfnod rhentu yn flwyddyn, a bod o leiaf dri mis o rent yn ddyledus ers dros dri mis.



Teler sylfaenol nad oes modd ei hepgor o'r contract na'i newid



Teler sylfaenol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid, ond dim ond os yw hynny'n rhoi gwarchodaeth uwch i chi na'r hyn y mae gennych chi hawl iddo dan Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015



Teler atodol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid



148. Mae Adran 196 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015 yn darparu bod rhaid i'r llys wneud gorchymyn ildio meddiant o'r fangre os yw'n fodlon—
- (a) bod gennych chi ôl-ddyled rhent ddifrifol ar y diwrnod y rhoddodd y landlord hysbysiad cymryd meddiant i chi,
 - (b) bod gennych chi ôl-ddyled rhent ddifrifol ar y diwrnod y mae'r llys yn clywed yr achos hawlio meddiant.

Cyfngiadau ar ddefnydd o sail ôl-ddyled rhent ddifrifol



149. Cyn hawlio meddiant ar y sail yn nheler 146, rhaid i'r landlord roi hysbysiad cymryd meddiant i chi sy'n pennu'r sail honno.



150. Ni chaiff y landlord gyflwyno'r hawliad—
- (a) cyn diwedd y cyfnod o un mis yn dechrau gyda'r diwrnod y mae'n rhoi'r hysbysiad cymryd meddiant i chi, neu
 - (b) ar ôl y cyfnod o chwech mis sy'n dechrau gyda'r diwrnod hwnnw.

Sail rheoliaeth yr ystad



151. Caiff y landlord gyflwyno hawl i'r llys i adfeddiannu'r fangre ar un o'r seiliau sy'n ymwneud â rheolaeth yr ystad (sydd i'w gweld yn y blwch ar dudalennau 20 i 22).



152. Mae Adran 200 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015 yn darparu na all y llys wneud gorchymyn ildio meddiant ar sail rheolaeth yr ystad oni bai—
- (a) ei fod yn ei ystyried yn rhesymol i wneud hynny
 - (b) ei fod yn fodlon bod llety amgen ar gael i chi (neu y bydd ar gael i chi pan fydd y gorchymyn yn dod i rym).



153. Os yw'r llys yn gwneud gorchymyn ildio meddiant ar sail sy'n ymwneud â rheolaeth yr ystad (a dim sail arall) rhaid i'r landlord dalu swm i chi sy'n cyfateb â'r treuliau rhesymol rydych chi'n debygol o'u hwynebu drwy symud o'r fangre.



154. Nid yw teler 153 yn gymwys os yw'r llys yn gwneud gorchymyn ildio meddiant ar Sail A neu B o'r seiliau sy'n ymwneud â rheolaeth yr ystad (a dim sail arall).

Cyfngiadau ar ddefnydd o sail rheolaeth yr ystad



155. Cyn hawlio meddiant ar sail yn ymwneud â rheolaeth yr ystad, rhaid i'r landlord roi hysbysiad cymryd meddiant i chi sy'n pennu'r sail honno.



156. Ni chaiff y landlord gyflwyno'r hawliad—
- (a) cyn diwedd y cyfnod o un mis yn dechrau gyda'r diwrnod y mae'n rhoi'r hysbysiad cymryd meddiant i chi, neu
 - (b) ar ôl diwedd y cyfnod o chwech mis sy'n dechrau gyda'r diwrnod hwnnw.

157. Os caiff cynllun ailddatblygu ei gymeradwyo dan Adran 2 Atodlen 6 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015 sy'n ddarostyngedig i amodau, gall y landlord roi hysbysiad cymryd meddiant i chi yn pennu Sail rheolaeth yr ystad B cyn bodloni'r amodau.



158. Ni chaiff y landlord roi hysbysiad cymryd meddiant i chi yn pennu sail rheolaeth yr ystad G (dim angen y llety ar olynnydd)—
(a) cyn diwedd y cyfnod o chwe mis yn dechrau gyda diwrnod marwolaeth y deiliad contract blaenorol, neu
(b) ar ôl diwedd y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau gyda'r diwrnod hwnnw.



159. Ni chaiff y landlord roi hysbysiad cymryd meddiant i chi yn pennu sail rheolaeth yr ystad H (cyd-ddeiliad contract yn ymadael) ar ôl diwedd y cyfnod o chwe mis yn dechrau gyda'r diwrnod y daeth hawliau a rhwymedigaethau'r cyd-ddeiliad dan y contract hwn i ben.



Sail hysbysiad i'r deiliad contract

160. Os nad ydych chi'n ildio meddiant o'r fangre ar y dyddiad a bennir mewn hysbysiad dan deler 114, ar y sail honno caiff y landlord gyflwyno hawliad i'r llys i adennill meddiant o'r fangre.



161. Mae Adran 195 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015 yn darparu bod rhaid i'r llys wneud gorchymyn i ildio meddiant o'r fangre os yw'n fodlon fod y sail yn ddilys.



Cyfngiadau ar ddefnydd o sail hysbysiad i'r deiliad contract

162. Cyn hawlio meddiant ar y sail yn nheler 160 rhaid i'r landlord roi hysbysiad cymryd meddiant i chi sy'n pennu'r sail honno.



163. Caiff y landlord hawlio meddiant ar neu ar ôl y diwrnod y mae'n rhoi'r hysbysiad cymryd meddiant i chi.



164. Ond ni chaiff hawlio meddiant ar ôl diwedd y cyfnod o chwech mis sy'n dechrau ar y diwrnod hwnnw.



165. Ni chaiff y landlord roi hysbysiad cymryd meddiant i chi'n pennu'r sail yn nheler 160 ar ôl diwedd y cyfnod o ddau fis yn dechrau gyda'r dyddiad a bennir yn y rhybudd dan deler 114 fel y dyddiad y byddech chi'n ildio meddiant o'r fangre.



Teler sylfaenol nad oes modd ei hepgor o'r contract na'i newid



Teler sylfaenol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid, ond dim ond os yw hynny'n rhoi gwarchodaeth uwch i chi na'r hyn y mae gennych chi hawl iddo dan Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015



Teler atodol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid

SAIL RHEOLAETH YR YSTAD

Y SEILIAU



Sail A

- 1 Mae'r landlord yn bwriadu, o fewn cyfnod rhesymol i sicrhau meddiant o'r fangre—
 - (a) chwalu neu ailadeiladu'r adeilad neu ran o'r adeilad sy'n cynnwys y fangre, neu
 - (b) gwneud gwaith ar yr adeilad hwnnw neu ar dir a gaiff ei drin fel rhan o'r fangre,
 ac ni all wneud hynny'n rhesymol heb sicrhau meddiant o'r fangre.



Sail B

- 2 (1) Mae'r sail hon yn codi os yw'r fangre'n bodloni'r amod cyntaf neu'r ail amod.

(2) Yr amod cyntaf yw bod y fangre mewn ardal sy'n rhan o gynllun ailddatblygu sydd wedi'i gymeradwyo yn unol â rhan 2 o Atodlen 6 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015, a bod y landlord yn bwriadu gwaredu'r fangre yn unol â'r cynllun o fewn cyfnod rhesymol i sicrhau meddiant.

(3) Yr ail amod yw bod rhan o'r fangre mewn ardal o'r fath a bod y landlord yn bwriadu gwaredu'r rhan honno'n unol â'r cynllun, o fewn cyfnod rhesymol i sicrhau meddiant, ac at y diben hwnnw ei bod yn rhesymol fod angen meddiant o'r fangre arno.



Sail C

- 3 (1) Mae'r landlord yn elusen a byddai meddiant parhaus gennych chi yn y fangre yn gwrthdaro ag amcanion yr elusen.

(2) Ond nid yw'r sail hon ar gael i'r landlord ("L") oni bai, ar yr adeg y lluniwyd y contract ac ar bob adeg wedi hynny, bod y person sydd yn sefyllfa'r landlord (boed L neu berson arall) wedi bod yn elusen.



Sail D

- 4 Mae gan y fangre nodweddion sy'n sylweddol wahanol i'r rhai a geir mewn mangre arferol, ac sydd wedi'u cynllunio i'w gwneud yn addas i'w meddiannu gan berson ag anabledd corfforol sydd angen llety o'r math a ddarperir gan y fangre ac—
 - (a) nid oes person o'r fath yn byw yn y fangre bellach ac
 - (b) mae angen y fangre ar y landlord i'w meddiannu gan berson o'r fath (boed ar ei ben ei hun neu gydag aelodau o'i deulu).

Sail E

- 5 (1) Mae'r landlord yn gymdeithas tai neu'n ymddiriedolaeth tai sy'n darparu'r fangre i'w meddiannu (boed ar eu pen eu hunain neu gydag eraill) gan bersonau sy'n anodd eu lletya yn unig a—
- (a) naill ai does dim person o'r fath bellach yn byw yn y fangre neu mae awdurdod tai lleol wedi cynnig hawl i chi feddiannu mangre arall dan gontract diogel ac
 - (b) mae angen y fangre ar y landlord i'w meddiannu gan berson o'r fath (boed ar ei ben ei hun neu gydag aelodau o'i deulu).
- (2) Mae person yn anodd ei letya os yw ei amgylchiadau (ar wahân i amgylchiadau ariannol yn unig) yn ei gwneud yn arbennig o anodd iddo ddiwallu ei angen am lety.



Sail F

- 6 Mae'r fangre yn rhan o grŵp o fangreoedd ac arfer y landlord yw eu gosod i'w meddiannu gan bersonau ag anghenion arbennig a—
- (a) caiff gwasanaeth cymdeithasol neu gyfleuster arbennig ei ddarparu'n agos iawn at y grŵp o fangreoedd er mwyn cynorthwyo personau â'r anghenion arbennig hynny,
 - (b) nid oes person â'r anghenion arbennig hynny'n byw yn y fangre bellach, ac
 - (c) mae angen y fangre ar y landlord i'w meddiannu gan berson sydd â'r anghenion arbennig hynny (boed ar ei ben ei hun neu gydag aelodau o'i deulu).



Sail G

- 7 Rydych chi wedi olynu i'r contract hwn dan adran 141 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015 fel olynydd wrth gefn i'r deiliad contract blaenorol, ac mae'r llety yn y fangre sydd lawer yn fwy helaeth nag sydd ei angen arnoch chi'n rhesymol.



Sail H

- 8 (1) Mae'r sail hon yn codi os caiff yr amod cyntaf a'r ail eu bodloni.
- (2) Yr amod cyntaf yw bod hawliau a rhwymedigaethau cyd-ddeiliad contract dan y contract wedi'u terfynu'n unol â—
- (a) telerau 83 i 90 (tynnu'n ôl), neu
 - (b) adran 115, 117, neu 119 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015 (gwahardd).
- (3) Yr ail amod yw bod—
- (a) y llety yn y fangre yn fwy helaeth nag sydd ei angen yn rhesymol ar y deiliad contract (neu ddeiliad contract) sydd ar ôl, neu
 - (b) os yw'r landlord yn landlord cymunedol, nad yw'r deiliad contract sydd ar ôl (neu'r deiliad contract sydd ar ôl) yn bodloni meini prawf y landlord ar gyfer dyrannu llety.



Teler sylfaenol nad oes modd ei hepgor o'r contract na'i newid



Teler sylfaenol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid, ond dim ond os yw hynny'n rhoi gwarchodaeth uwch i chi na'r hyn y mae gennych chi hawl iddo dan Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015



Teler atodol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid



Sail I

- 9 (1) Mae'r sail hon yn codi os yw'n ddymunol am ryw reswm sylweddol yn ymwneud â rheolaeth yr ystad i'r landlord sicrhau meddiant o'r fangre.
- (2) Gallai rheswm yn ymwneud â rheolaeth yr ystad yn benodol gyfeirio at—
- (a) yr holl fangre neu ran ohoni neu
 - (b) unrhyw fangre arall sy'n eiddo i'r landlord y mae'r fangre'n gysylltiedig â hi, boed oherwydd agosrwydd neu'r dibenion y'i defnyddir ar eu cyfer neu mewn unrhyw ffordd arall.

M. AMRYWIAD

Cyffredinol



166. Ni chaniateir amrywio'r contract hwn ar wahân i—
- (a) yn unol â thelerau 4 i 6, 167 i 175, neu
 - (b) gan neu o ganlyniad i unrhyw ddeddfiad.

Telerau sylfaenol, atodol ac ychwanegol



167. Gellir amrywio telerau sylfaenol, atodol ac ychwanegol y contract hwn—
- (a) drwy gytundeb rhwng y landlord a chi neu
 - (b) gan y landlord, yn unol â thelerau 170 i 175.



168. Nid yw teler 167 yn gymwys i—
- (a) telerau 14 i 19 (ymddygiad gwaharddedig),
 - (b) telerau 179 i 180 (sicrhau contract drwy dwyll),
 - (c) telerau 91 i 94 (goroesedd),
 - (d) telerau 101 i 105 (eich marwolaeth chi).



169. Nid yw cytundeb i amrywio teler sylfaenol mewn grym oni bai, o ganlyniad i'r amrywiad—
- (a) y byddai'r ddarpariaeth sylfaenol y mae'r teler yn ei chynnwys yn cael ei hymgorffori heb ei haddasu, neu
 - (b) y byddai'r contract yn cynnig lefel uwch o warchodaeth i chi nag a fyddai ar gael yn yr achos hwnnw.

Telerau sylfaenol, atodol ac ychwanegol: cyfnod hysbysu



170. Gall y landlord roi hysbysiad i chi y bydd y landlord yn cymryd achos i gael meddiant ar y sail yn nheler 129 (hysbysiad y landlord) oni bai eich bod chi'n cydsynio ag amrywiad i'r contract hwn.



171. Rhaid i'r hysbysiad—
- (a) bennu natur yr amrywiad a'r dyddiad y daw'r amrywiad i rym ac
 - (b) eich hysbysu chi bod grym i'r hysbysiad fel hysbysiad dan deler 119 (hysbysiad y landlord i ddiweddu contract).

172. Ni chaiff y dyddiad a bennir fel y dyddiad y daw'r amrywiad i rym fod yn llai na dau fis ar ôl y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei roi i chi.
173. Os nad ydych chi'n rhoi cydsyniad ysgrifenedig i'r amrywiad ar neu cyn y dyddiad y daw i rym, caiff y landlord hawlio meddiant ar y sail yn nheler 129 (hysbysiad y landlord).
174. Os yw'r landlord yn bodloni gofynion telerau 170 i 173, caiff ei drin at ddibenion hawlio meddiant fel pe bai wedi rhoi hysbysiad i ddiweddu'r contract dan deler 119.
175. Nid yw telerau 173 a 174 yn gymwys mewn perthynas ag amrywiad i deler sylfaenol oni bai, o ganlyniad i'r amrywiad—
- (a) y byddai'r ddarpariaeth sylfaenol y mae'r teler yn ei chynnwys yn cael ei hymgorffori heb addasu, neu
 - (b) y byddai'r contract yn cynnig lefel uwch o warchodaeth i chi nag a fyddai ar gael yn yr achos hwnnw.



Datganiad ysgrifenedig o amrywiad

176. Os caiff y contract hwn ei amrywio dan unrhyw un o delerau 4 i 6, 167 i 175 neu o ganlyniad i unrhyw ddeddfu rhaid i'r landlord, cyn diwedd y cyfnod perthnasol, roi i chi—
- (a) datganiad ysgrifenedig o'r teler neu'r telerau a amrywiwyd neu
 - (b) datganiad ysgrifenedig o'r contract fel y'i hamrywiwyd.
177. Y cyfnod perthnasol yw'r cyfnod o ddwy wythnos yn dechrau ar y diwrnod y caiff y contract hwn ei amrywio.
178. Ni chaiff y landlord godi ffi am ddarparu datganiad ysgrifenedig dan deler 176.



N. MATERION ERAILL

Twyll

179. Os caiff y landlord ei gymell i lunio'r contract hwn drwy ddatganiad ffug perthnasol—
- (a) cewch eich trin fel pe baech wedi torri'r contract hwn
 - (b) caiff y landlord felly wneud hawliad i adennill meddiant o'r fangre ar y sail yn nheler 140 (torri contract)
180. Mae datganiad ffug yn berthnasol os caiff ei wneud yn wybodus neu'n fyrbwyll—
- (a) gennych chi neu
 - (b) gan berson arall sy'n gweithredu yn ôl eich anogaeth chi.



Teler sylfaenol nad oes modd ei hepgor o'r contract na'i newid



Teler sylfaenol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid, ond dim ond os yw hynny'n rhoi gwarchodaeth uwch i chi na'r hyn y mae gennych chi hawl iddo dan Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015



Teler atodol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid

Gwybodaeth am y partion



181. Rhaid i'r landlord, cyn diwedd y cyfnod o ddwy wythnos sy'n dechrau gyda'r dyddiad y daw'r contract hwn i rym, eich hysbysu chi am gyfeiriad yng Nghymru a Lloegr y gallwch chi anfon dogfennau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer y landlord.



182. Os yw'r landlord yn rheoli'r fangre drwy asiant rhaid i'r landlord, cyn diwedd y cyfnod o ddwy wythnos sy'n dechrau gyda'r diwrnod y mae'n dechrau rheoli'r fangre drwy asiant, eich hysbysu chi am enw a chyfeiriad yr asiant.



183. Os ceir newid o ran landlord, rhaid i'r landlord newydd, cyn diwedd y cyfnod o ddwy wythnos sy'n dechrau gyda'r diwrnod y daw'n landlord, eich hysbysu chi mai ef bellach yw'r landlord.



184. Os ceir newid o ran deiliad contract, rhaid i'r landlord, cyn diwedd y cyfnod perthnasol, hysbysu'r deiliad contract newydd mai ef bellach yw'r deiliad contract dan y contract hwn.



185. Y cyfnod perthnasol yw dwy wythnos sy'n dechrau—
(a) ar y diwrnod pan fydd y deiliad contract yn newid neu
(b) os yw'n hwyrach, y diwrnod y daw'r landlord yn ymwybodol fod y deiliad contract wedi newid.

Iawndal ar gyfer torri telerau 181 i 185



186. Os yw'r landlord yn methu â chydymffurfio â rhwymedigaeth dan delerau 181 i 185, mae'n atebol i dalu iawndal i chi dan adran 34 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015.



187. Mae'r iawndal yn daladwy mewn perthynas â'r dyddiad perthnasol a phob dydd ar ôl y dyddiad perthnasol hyd at—
(a) y dydd y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad dan sylw, neu
(b) os yw'n gynharach, dydd olaf y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau ar y dyddiad perthnasol.



188. Mae llog ar yr iawndal yn daladwy os yw'r landlord yn methu â rhoi'r hysbysiad i chi ar neu cyn y dydd y cyfeirir ato yn nheler 187(b).



189. Mae'r llog yn dechrau rhedeg ar y diwrnod y cyfeirir ato yn nheler 187(b), ar y gyfradd ar y pryd dan adran 6 Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 (c. 20) ar ddiwedd y diwrnod hwnnw.



190. Y dyddiad perthnasol yw'r diwrnod cyntaf o'r cyfnod yr oedd rhaid i'r landlord roi'r hysbysiad ynddo.

Datganiad ysgrifenedig o gontract



191. Rhaid i'r landlord roi datganiad ysgrifenedig o'r contract hwn i chi cyn diwedd y cyfnod o ddwy wythnos yn dechrau gyda'r dyddiad y daw i rym.

192. Ni chaiff y landlord godi ffi am ddarparu datganiad ysgrifenedig i chi dan deler 191.



193. Gallwch wneud cais am ddatganiad ysgrifenedig arall o'r contract hwn ar unrhyw adeg.



194. Caiff y landlord godi ffi resymol am ei ddarparu.



195. Rhaid i'r landlord roi datganiad ysgrifenedig arall i chi cyn diwedd y cyfnod o ddwy wythnos sy'n dechrau gyda—
(a) diwrnod y cais, neu
(b) os yw'r landlord yn codi ffi resymol, y diwrnod rydych chi'n talu'r ffi.

Ffurf yr hysbysiadau

196. Rhaid i unrhyw hysbysiad neu ddogfen arall sy'n angenrheidiol neu a awdurdodir i'w rhoi neu ei gwneud gan y contract hwn fod yn ysgrifenedig.



Noder: Mae'r Model hwn o Gontract Cyfnodol Safonol - Rhentu Cartrefi hwn wedi'i seilio ar y Contract Cyfnodol Safonol Enghreifftiol a grëwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn 2006 (Rhentu Cartrefi: Adroddiad Terfynol).



Teler sylfaenol nad oes modd ei hepgor o'r contract na'i newid



Teler sylfaenol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid, ond dim ond os yw hynny'n rhoi gwarchodaeth uwch i chi na'r hyn y mae gennych chi hawl iddo dan Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2015



Teler atodol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid